Dyma gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor eco mewn ysgol.
Mae angen darllen drwy'r gwaith yn ofalus gan fod ynddo nifer o wallau iaith a bylchau.

# Pwyllgor eco'r ysgol

## Cyfarfod i drafod weithgareddau Chwefror a Mawrth

Labordy PH2, dydd Gwener, Chwefror 24

Yn bresennol: Caren Jenkins, Yasseen Mohammed, Erin Fflur,
Dafydd Owain, miss B.J. Davies

Ymddiheuriadau: Mr Williams, y pennaeth

### Wythnos y dathlu

Bydd yr ysgol yn cynnal wythnos o weithgareddau arbennig i ddathlu ei phen-blwydd yn 50 oed eleni. Mae angen i ni sicrhau bod y gwelyau blodau ar dir yr ysgol yn llawn blodau lliwgar ar gyfer y dathliadau ym mis Gorffennaf.

Er mwyn cadw'r costau i lawr, penderfynwyd y byddai grwpiau o ddisgyblion o wahanol flynyddoedd yn gyfrifol am hau hadau a thyfu blodau ar gyfer gwelyau blodau penodol, e.e.

Blwyddyn 7 - y gwely blodau o flaen y gegin
Blwyddyn 8 - y gwely blodau o flaen y campfa
Blwyddyn 9 - y gwely blodau o flaen y dderbynfa
Blwyddyn 10 - y gwely blodau o flaen y prif adeilad
Blwyddyn 12 - y gwely blodau o flaen y labordai

Ni fydd disgwyl i Flynyddoedd 11 ac 13 wneud hyn, oherwydd eu bod yn sefyll arholiadau.

Bydd rhaid i ni ddewis cynrychiolwyr o bob blwyddyn i ddod i'r cyfarfod nesaf i drafod hyn.

Awgrymodd Erin y byddai'n syniad da gofyn i'r ……….. ganolfan arddio yn y dref noddi'r gwelyau hyn, drwy gynnig hadau am ddim i ni, efallai. Byddai hi'n mynd i'r ddau le i weld ydyn nhw'n fodlon gwneud hyn. Yn ogystal ag wythnos y dathlu, trafodwyd yr angen i gael biniau newydd ar dir yr ysgol. Mae'r rhai sydd genym ar hyn o bryd yn hen iawn. Mae rhai'n llawn tyllau. Byddwn ni'n trafod y mater hwn yn ystod ein cyfarfod nesaf.

Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf:
Labordy PH3, dydd Gwener, Mawrth 10